

Y Salmau Cân

Rhannu / ymddiriedaeth

Does neb yn gwybod yn union ymhle y ganed Edmwnd Prys. Ond credir mai yn y Gydros yn Sir Feirionnydd y ganed ef. Dyma gyfweiliad dychmygol rhyngddo ef a'r awdur.

Fedrwch chi grynhoi eich hanes yn fyr?

Offeiriad fŷm i gydol f'oes. Ar ôl i mi raddio yng Ngholeg Sant Ioan, Caergrawnt, fe ges fy urddo'n offeiriad yn 1568. Wedyn mi fŷm i'n offeiriad ym Maentwrog a Ffestiniog ac yna yn Llwydlo ar y Gororau. Yna mi ges i fy mhenodi yn Archddiacon Meirionnydd. Roeddwn i'n byw wedyn yn Nhyddyn Du, yn fy hen blwyf ym Maentwrog. Ac yno y bŷm i'n byw weddill fy oes.

Roeddech chi hefyd yn dipyn o fardd, medden nhw.

Fe sgwennais i lawer iawn o gywyddau. Roedd y mwyafrif ohonyn nhw ar destunau crefyddol. Wyddoch chi, mi sgwennais i un ar bêl-droed, coeliwch neu beidio! Mi wnes i hefyd sgwennu awdlau a nifer fawr o englynion.

Ydi o'n wir bod yr englynion hyn wedi eu hysgrifennu yn yr iaith Ladin?

Ydi, mae hynny'n berffaith wir. Roeddwn i'n gryn feistr ar yr iaith Ladin. Roeddwn i'n dipyn o feistr ar yr iaith Hebraeg, iaith yr Hen Destament. A deud y gwir, roeddwn i'n medru wyth iaith i gyd. Mi fyddai William Cynwal, bardd oedd yn byw yn yr ardal acw, yn dweud mai dangos fy hun oeddwn i pan oeddwn i'n sgwennu yr englynion Lladin yma. Wel, pawb â'i farn yntê! Cofiwch chi, mi roedd Cynwal yn dweud pethau mawr amdana i. Roedd o'n haeru nad oeddwn i'n fardd o gwbl ac y byddai'n well i mi fugeilio fy mhobl yn hytrach nag ymhél â barddoniaeth.

Ond dal ati wnaethoch chi?

Ie. Fel y gwyddoch chi, doedd canu emynau ddim yn rhan o wasanaethau'r eglwys bryd hynny. Mi geisiais i lenwi'r bwlch drwy drosi o'r salmau ar fesurau y gallai'r bobl eu canu. Fel y gwyddoch

Edmwnd Prys: 1544-1623

chi, mae yna 150 o salmau yn y Llyfr Salmau yn yr Hen Destament ac felly fe es ati i'w gwneud nhw'n benillion y byddai'r bobl yn gallu eu canu. Mi oedd yna resymau am hyn wrth gwrs. Un rheswm oedd ceisio gwneud ystyr y salmau yn gliriach. Mae rhai o'r salmau yna'n ddigon anodd eu deall. Rheswm arall oedd y gallai'r bobl gyffredin ddysgu'r penillion hyn ar eu cof. Mi ymddangosodd yr holl salmau, 150 ohonyn nhw i gyd, fel atodiad i'r Llyfr Gweddi Gyffredin ym 1621.

Fedrwch chi roi enghraifft neu ddwy i ni o'ch Salmau Cân?

Gwnaf. Fe rof i ddyfyniad o'r gân ac fe gewch chi ddyfalu pa salm. Dyma'r gyntaf:

“Yr Arglwydd yw fy mugail clau,
Ni ad byth eisiau arnaf.”

Salm 23

“Yr Arglwydd cenwch lafar glod
A gwnewch ufudd-dod llawen fryd
Dewch o flaen Duw â pheraidd dôn
Trigolion daear fawr i gyd.”

Salm 100

Wel, ardderchog.

Edmwnd Prys, diolch i chi am fod mor barod i ateb y cwestiynau.



“Molwch yr Arglwydd. Canwch i'r Arglwydd gân newydd.”

Salm 149:1



Diolch i ti, O Dduw, am bobl sy'n barod i ddefnyddio eu doniau i'th wasanaeth Di.
Amen.



Pa mor bwysig ydi addasu neges y Beibl i'n cyfnod ni?
Oes yna le i ailsgwennu'r Beibl mewn iaith gyfoes?